CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 21ain MAI 2024.
NEUADD GOFFA BODWROG.

PRESENNOL:
Cyng D T Roberts (Cadeirydd) Cyng W R Parry (Is-Gadeirydd) Cyng Ms N Dafydd, J E Lewis, Miss B Owen, R G Parry, Mrs L Roberts, R R Roberts.
Clerc D Owen.

YMDDIHEURIADAU: Cyng J Evans, G Jones.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Neb.

Croesawyd Cyng R G Parry a R R Roberts yn ol ar ol gwaeledd.

CAEL COFNODION 16eg EBRILL 2024 YN RHAI CYWIR: Cyng W R Parry eilo Cyng Mrs L Roberts.

SWYDDOGION 2024 / 2025.

CADEIRYDD. Cyng W R Parry. Cynnig Cyng R G Parry, eilio Cyng J E Lewis.

IS-GADEIRYDDES. Cyng Mrs L Roberts. Cynnig Cyng R R Roberts, eilio Cyng W R Parry.

CYNRYCHIOLWR / WYR AR FUDIADAU. Dim newid aros fel y maent. Cynnig Cyng R G Parry, eilio Cyng R R Roberts.

Dilolchwyd Cyng D T Roberts am ei waith rhagorol fel Cadeirydd am 2023 / 2024, gan y Cadeirydd a`r Clerc.

Llongyfarchiadu mawr y Cyng Ms N Dafydd am gael ei gwneud yn Is-Gadeiryddes y Cyngor Sir.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. FPL/2024/81. Cais llawn ar gyfer codi dau polytwnel ar dir ger:-
   Bryn Tancwy, Llynfaes, Tynlon.
   Dim gwrthwynebiad.
   Cynnig Cyng D T Roberts, eilio Cyng R R Roberts.

PENDERFYNIADAU.

2. Dim

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

3. Swyddog Polisi Rhian W Jones.
   Y Cyngor yn derbyn, a`r Cynghorwyr yn gobeithio ceir cefnogaeth cryf i`r pedair arlunwraig yn Oriel Mon, Llangefni. Ei lansio 27ain Ebrill 27ain. Yn cynnwys gwaith pum Artist cyfoes sydd wedi gwreiddio eu dulliau Artistig yn nhir Cymru.
   Angie Hoopert, Jane Paice, Catherine Taylor Parry, Louise Morgan a Wendy Lawerance.

4. Swyddog Polisi Rhian W Jones.
   Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned.
   Bwriedir cynnal cyfarfod nesaf nos iau 13ain Mehefin 2024 am 6.30yh.
   Siambyr y Cyngor, Llangefni a Zoom manylion pellach o law. Y Cyngor yn derbyn yn wybodaeth.

5. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
   Cynllun Grant i adfer ffiniau caeau traddodiadol Ynys Mon.
   Ffermwyr a Rheolwyr Tir yn cael cyfle i gymryd mantais o gyllid grant i warchod a gwella.
   Wedi derbyn trwy gynllun tirweddau cynhaliadwy lleoedd cynaliadwy gan Tim Cefn Gwlad ac ardal o harddwch naturiol eithradiol (AHNE).
   Grant gan Llywodraeth Cymru yn cynnig hyd at 70% o gyllid i adfer / creu waliau cerrig.
   Gwrychoedd a chloddiau gyd uchafswm o £4,000 i`r ymgeisydd.
   Gwybodaeth AHNE@ynysmon.llyw.cymru 01248 752463.
   Derbyniwyd gan y Cyngor ond nid oedd unrhyw sylw i`w gofnodi.

6. Swyddog Datblygu Chwarae. Kimberley Coll.
   Cyflwyniad ganddi na hi ydyw y Swyddog sydd yn helpu i gefnogi cyfleoedd chwarae digonol i blant a phobl ifanc Ynys Mon.
   Cyllid Grant a gafwyd a gan bwy i ddatblygu yn ein hardal. Materion / Pryderon Cyfredol.
   Dogfen RoSPA o archwilio.
   Derbyn y wybodaeth. Mae fwy i Bwyllgor y Maes Chwarae nac i`r Cyngor. Anfon ymlaen efallai i Gaynor Jones.

GOHEBIAETH (ARALL)

7. Sign Factory, Stad Ddiwydiannol Mona.
   Amcangyfrif am arwyddion ffordd.
   Gofynwyd am bris i 2 Llynfaes, 2 Glanrafon, 2, Trefor a un Gwyndy. a cafwyd hyn.
   Ond dywedodd Cyng Ms N Dafydd ei bod wedi bod mewn cysylltiad a chynllun arall i gael arwyddion i Gwyndy a Bodychen (Olion Maenordy yng nghae Gwyndy ffordd Bodfeillion dros 400 mlynedd) Bydd yn bosib wedyn edrych ar Gwyndy a phosib Bodychen os na fydd cynnydd ar cynllun.)
   Felly trwy gynnig Cyng D T Roberts eilio Cyng R G Parry pasiwyd i ail ofyn am amcangyfrif heb Gwyndy ai gosod.

8. Maes Chwarae Bodffordd.
   Gair o ddiolch gan Gaynor Jones am gyfraniad o £500 gan y Cyngor.
   Derbyn.

9. Elusen Ambiwlans Awyr Cymru.
   Adolygiad Gwasanaeth EMRTS.
   Y Cyngor yn hollol gwrthwynebu symud y gwasaneth i`r De, mae pellter ir Gogledd. Mae yn

angenrheidiol cael rhywbeth yn dalgylch Ynys Mon. Unfrydol.

10. Clercod a Cynghorau Uningyrchol. Cylchgrawn. Derbyn. Cyng J E Lewis yn cael golwg.

RHODDION.

11. Dim.

PLWYFOL.

12. Adroddiad Elusen William Bold.
    Cyng D T Roberts wedi mynychu cyfarfod gyda`r uchod ond yn anffodus nid oedd digon i wneud corwm. Gobeithi`r cael cyfarfod eto mis nesaf.

13. Llongyfyrchiadu mawr i Cyng Miss B Owen a Cyng R G Parry am gael ei urddo.

14. Pan mae Neuadd Goffa Bodwrog yn cael ei defnyddio mae y ceir yn parcio wrth ochr y Neuadd ac i fynnu i`r brig tuag at y Tai. Mae yn achosi trafferthion. Gofynodd Cyng Miss B Owen sydd y byw ar y brig, a oedd yn bosib pasio y neges ymlaen i Hogia Bodwrog a`r Whist Drive. Yn gofyn iddynt beidio a parcio yma na eiddo i`r tai ydyw. Preswyl yn unig. Y Clerc wedi cysylltu a Mr. Elfed Hughes (Hogia Bodwrog) yn gofyn iddo basio y neges ymlaen.

15. Mynwent Gymunedol Bodffordd.
    Daeth gwybodaeth i law fod giatiau y fynwent yn cael ei gadael yn agored (R`oedd y Clerc wedi ei cau ar ddau achlysur pan yn pasio) ac yr oedd Cyng J Evans yn dweud fod y giatiau yn gorad yn amal. Deallwyd fod y fangre yn cael ei ddefnydio i Barcio. (Gan Parti Bara Brith) pan yn defnyddio yr Eglwys i ymarfer. Ni rhoddwyd caniatad iddynt ar un achlysur i ddefnyddio Maes Parcio y Fynwent Gymunedol. Hollol anymwybodol ei fod yn cael ei ddefnyddio.
    Hefyd r`oedd Fan Gwersylla wedi cael ei gweld yno trwy`r nos, a wedi gadel yn fuan yn y bore (wedi cael y giat ar agor) Bwrdd a cadeiriau, yn cael picnic a`r plant yn rhedeg o amgylch y cerrig beddi. Annerbyniol mewn mynwent.
    Maes Parcio ydyw i`w ddefnyddio i Angladdau yn y Fynwent Gymunedol. Nid ydyw ddim byd i wneud a`r Eglwys. Eiddo y Cyngor. Ni chaniateir defnyddio y Maes Parcio fel man Parcio Cyhoeddus.
    Trwy gynnig Cyng R R Roberts ac eilio unfrydol pasiwyd i rhoi clo ar y giat, unwaith yn rhagor. Mae gwybodaeth ar yr Hysbysford.
    Cafwyd broblem o`r blaen gyda`r Sipsi a`r Teithiwyr yn defnyddio y Maes Parcio ac yn dod i nol dwr o`r tap yn rheolaidd. Dyna pam rhoddwyd clo ar y giat yr amser hynnu.
    Ond wrth gwrs bydd rhaid rhoi goriad i`r Eglwys iddynt gael ei ddefnyddio i Angladdau, Priodasau, Bedydd a Diolchgarwch os bydd. Ond ddim i agor i neb arall.

16. Cafwyd adroddiad misol gan y Cynghorydd Sirol Ms N Dafydd. Gwych. Y Cyngor yn ddiolchgar dros ben iddi.

MATERION ARIANNOL.

17. Cyfrif Rhedegol. £24,390.79. (Praeseb 1 £4,333.33) Claddu llwch, a arysgrifennu £200.00. Mynwent Gymunedol Bodffordd £8,590.00 rhan o`r uchod))

TALIADAU:

18. Clerc £470.00. S Bennett (Trwsio giat bach y Fynwent) £60.00

    Derbyn cydbwysedd cyfrif, a talu y dyledion i gyd. Cynnig Cyng R R Roberts, eilio Cyng R G Parry.

D Owen (Clerc)